

**Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION a gynhaliwyd yn Neuadd  
Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy gynhadledd fideo  
ddydd Iau, 14 Rhagfyr 2023**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.00am - 12.35pm  
1.05pm - 2.10pm)

**Gweithdrefn**

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlluedu.

**1 Ymddiheuriadau**

- a) Ymddiheurodd y Cynghorydd John Roberts am ei anallu i fynychu'r cyfarfod;
- b) Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans a Rhodri Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod am eu bod ar ddyletswydd eraill ar ran y Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

- a) Gwnaeth y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Wyn Evans, Gareth Lloyd a Matthew Vaux ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8, gan nodi eu bod wedi derbyn gollyngiad i siarad ac i bleidleisio ar yr eitem hon;
- b) Gwnaeth y Cynghorwyr Ifan Davies a Chris James ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8, gan nodi eu bod wedi derbyn gollyngiad i siarad yn unig ar yr eitem hon;
- c) Gwnaeth y Cynghorydd Catrin M S Davies ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8, gan nodi ei bod wedi derbyn gollyngiad i siarad ac i bleidleisio ar fater ail dai a gollyngiad i siarad yn unig ar fater eiddo gwag hirdymor;
- d) Gwnaeth y Cynghorwyr Gethin Davies ac Eryl Evans ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8, gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon;
- e) Gwnaeth y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Endaf Edwards, a Chris James ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 10, gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon;
- f) Gwnaeth y Cynghorydd Maldwyn Lewis ddatgan budd personol mewn perthynas ag eitem 12;
- g) Gwnaeth y Prif Weithredwr, Eifion Evans, ddatgan budd personol a rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 10, yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Nododd y Cynghorydd Euros Davies fod eiddo fferm gwag yn ei Ward sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth gan y Cyngor. Dywedodd y Swyddog Monitro fod Ymddiriedolwyr a benodwyd gan y Cyngor wedi'u heithrio rhag statws rhagfarnol.

### **3 Materion Personol**

- a) Cydymdeimlodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis â'r Cynghorydd Wyn Evans ar ei brofedigaeth ddiweddar;
- b) Llongyfarchodd y Cynghorydd Carl Worrall Dîm y Gofalwyr ar eu gweithdy ardderchog a gynhaliwyd yn Theatr Felin-fach yn ddiweddar;
- c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Carl Worrall Pamela Worrall ar gyrraedd y 4<sup>ydd</sup> safle ym Mhencampwriaethau Pysgota Môr y Byd yn Sisili. Mae hi bellach yn y 12<sup>fed</sup> safle yn y byd;
- d) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Davies George Ryley ar gyrraedd y rhestr fer fel "Unigolyn y Flwyddyn" yng ngwobrau diweddar GO Wales a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad ddiwedd mis Rhagfyr.
- e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Euros Davies holl gystadleuwyr Ceredigion ar eu llwyddiant yn y Ffair Aeaf yn ddiweddar, gyda nifer yn ennill gwobrau cyntaf a phencampwriaethau;
- f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Euros Davies Mr Denley Jenkins ar gael ei ethol yn Llywydd Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2024.

### **4 Datganiad o Dderbyn Swydd ac Ymrwymiad i gadw at y Cod Ymddygiad gan y Cynghorydd Shelley Childs**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Shelley Childs i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor gan ddymuno'n dda iddo yn ei rôl.

Anerchodd Elin Prysor, Swyddog Monitro, y Cyngor ynglŷn â'r gofyniad statudol i bob Aelod wneud Datganiad o Dderbyn ac ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gan gadarnhau bod y Cynghorydd Shelley Childs, wrth wneud y Datganiad Statudol o Dderbyn y Swydd, wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ar God Ymddygiad y Cyngor ddydd Llun 20fed Tachwedd 2023.

Mae hyn er mwyn i Aelodau gyflawni eu swyddogaethau gyda dealltwriaeth o Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus, eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y cod, a hefyd y canlyniadau am fethu â gwneud hynny.

Derbyniodd y Cynghorydd Shelley Childs ar lafar y Datganiad o Dderbyn y Swydd a'r ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a gafodd ei lofnodi a'i gydlofnodi eisoes gan y Swyddog Priodol.

Fe wnaeth Arweinydd y Cyngor, ac Arweinwyr y Gwrthbleidiau longyfarch Cynghorydd Shelley Childs a dymuno'n dda iddo yn ei rôl.

### **5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Hydef 2023**

Nododd Elin Prysor ddiwygiad, er mwyn eglurder i gofnod 10 i nodi testun ychwanegol yn dilyn:

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd, fel y cytunwyd ac yn unol â Rheol 14.5 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ...

Testun ychwanegol:

*“ar yr argymhelliad a ganlyn:*

*Bod y Cyngor (sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Cofrestru) yn canfod bod athrawiaeth anghydnawsedd statudol yn atal cofrestru'r Tir fel Maes Pentref ac yn unol â hynny mae'r Cyngor yn gwrthod y Cais i gofrestru'r Tir fel Maes Pentref.*

*Pleidleisiodd yr Aelodau fel a ganlyn:”*

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Davies fod geiriad y datgeliad o fuddiant yn eitem 2 ar yr agenda: Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu hefyd yn cael ei adlewyrchu yn eitem yr agenda y mae'r datgeliad yn cyfeirio ati.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau fel cofnod cywir Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023, yn amodol ar y newid uchod.

Materion yn codi

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**6 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Pefformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar gynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad gan nodi bod angen cynllunio ac ystyried yn ofalus cyn prynu anifail a bod ymgyrch gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) wedi arwain at y cynnig hwn i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion. Nododd nad yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr) yn gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau oni bai eu bod yn cael eu rhoi i blant ar eu pen eu hunain, ond mae'r RSPCA o'r farn nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn mynd yn ddigon pell ac nad yw'n ymdrin â'r materion lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â'r arfer hon.

Nododd y Cynghorydd Caryl Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fod yr adroddiad hwn wedi'i ystyried gan y pwyllgor a'u bod yn hapus iawn i gefnogi'r cynnig hwn gan fod iechyd a lles anifeiliaid yn arbennig o bwysig i ni gael economi amaethyddol gref.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol fod y Cyngor yn gweithredu gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir y Cyngor.

**7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Hunan-Asesiad Cyngor Sir Ceredigion 2022/23**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno trefn berfformio newydd ar sail Hunanasesiad ar gyfer Prif Gynghorau, sy'n cynnwys 5 dyletswydd benodol. Nododd fod Cyngor Sir Ceredigion, ers mis Ebrill 2023, wedi bod yn ymgymryd â'i gylch diweddaraf o hunanasesu sydd wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Throsolwg a Chraffu.

Nododd y Cynghorydd Keith Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu fod y pwyllgor wedi trafod yr adroddiad yn fanwl ac wedi argymhell iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Adroddiad Hunanasesu 2022/23 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Perfformiad a Llesiant, a
2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol aros yr un peth am y flwyddyn nesaf.

**8 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael ar Bremiymau Treth y Cyngor ar Bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion**

Cafodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Wyn Evans, Gareth Lloyd a Matthew Vaux ollyngiad i siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.

Cafodd y cynghorwyr Ifan Davies a Chris James ollyngiad i siarad ond i beidio â phleidleisio ar yr eitem hon.

Cafodd y Cynghorydd Catrin M S Davies ollyngiad i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag ail gartrefi ac i siarad ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag eiddo gwag hirdymor.

Gadawodd y Cynghorwyr Gethin Davies ac Eryl Evans y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi, ar gyfarwyddyd y Cabinet, y cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ffurfiol 6 wythnos ar lefel Premiymau Treth y Cyngor yn y dyfodol ar Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion rhwng 18 Medi a diwedd Hydref 2023 a bod Gweithgor Trawsbleidiol hefyd wedi'i sefydlu. Ystyriodd y Cabinet ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r sylwadau a gafwyd gan y Gweithgor Trawsbleidiol a chytunodd ar yr argymhellion. Nodwyd pe bai'r Cyngor yn cytuno ar gynnydd i Bremiymau Treth y Cyngor, byddai angen i'r Aelodau gytuno ar beth i'w wneud ag unrhyw incwm ychwanegol mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac o ran amseru y byddai dull graddol o weithredu'n cael ei adolygu'n barhaus o ran nifer y tai sydd ar gael, a nifer y cartrefi sy'n dychwelyd i'r stoc o gartrefi sydd ar gael. Nododd nad oedd incwm posibl

wedi bod yn ystyriaeth wrth ddod â'r argymhelliad gerbron y Cyngor, a nododd fod fforddiadwyedd tai i bobl ifanc yn ystyriaeth, sydd hefyd yn effeithio ar y Gymraeg os na all pobl fforddio byw yn eu cymunedau.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies fod y Cyngor wedi penderfynu ym mis Mawrth 2016 i gynyddu premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac Ail gartrefi yng Ngheredigion o 25% o bremiwm o 1 Ebrill 2017. Nododd, yn unol â deddfwriaeth, fod eiddo gwag hirdymor yn cael ei ddiffinio fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb gelfi i raddau helaeth ers o leiaf 12 mis gyda dodrefnu neu feddiannu annedd am un neu ragor o gyfnodau o chwe wythnos neu lai ddim yn effeithio ar statws annedd fel annedd wag hirdymor. Diffiniodd y deddfwriaeth Ail gartrefi fel 'anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd' sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol ond lle nad oes trigolyn parhaol yn byw ynddynt. Mae'r holl gyfeiriadau at ail gartrefi felly at 'anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd'.

Nododd fod yr adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr eiddo yng Ngheredigion ym mhob categori premiwm, yr ardaloedd yng Ngheredigion sydd â'r crynhoad / nifer uchaf o'r eiddo hyn, proffil oedran yr eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion, cynllun Tai Cymunedol Ceredigion, y cefndir deddfwriaethol, a'r amserlen a'r gofynion llywodraethu cysylltiedig. Nododd hefyd fod 1,403 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, sef yr ail ymateb uchaf erioed i ymgynghoriadau gan Gyngor Sir Ceredigion.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies fod mynd i'r afael â phroblemau ail gartrefi, perchnogaeth tai gwyliau a newid eiddo preswyl yn llety gwyliau yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 sydd wedi'i chymeradwyo. Mae hyn a chynyddu'r cyflenwad a'r ystod o opsiynau ar gyfer tai fforddiadwy yng Ngheredigion yn rhan allweddol o'r Amcan Llesiant Corfforaethol – 'Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysylltu'n dda'.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Hinge beth ellid ei wneud i sicrhau dull cyson o weithredu o ran cartrefi gwag sydd wedi'u dodrefnu'n rhannol sy'n rhoi'r argraff bod rhywun yn byw ynddynt pan nad ydynt. Nododd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael fod risg bob amser wrth newid y categorïau premiwm, fodd bynnag, mae adnoddau o fewn y tîm ac mae prosesau ar waith i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath i leihau mesurau osgoi, ond bod hwn yn faes lle mae angen cynnydd mewn adnoddau.

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Lloyd am yr effaith ar lety gwyliau os nad ydynt yn bodloni meini prawf yr ardrethi busnes o 182 diwrnod o feddiannaeth y flwyddyn o 1 Ebrill 2024, a fyddai llety gwyliau sy'n destun cymal cynllunio sy'n cyfyngu ar feddiannaeth trwy gydol y flwyddyn yn cael eu heithrio ac a fyddai'r trefniadau ar hyn o bryd o ran dyrannu incwm o'r premiymau yn dal yn berthnasol. Ategwyd y cwestiynau hyn gan sawl Aelod arall yn ystod y drafodaeth.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies fod y newidiadau yn ymwneud â'r meini prawf gosod 182 diwrnod o ganlyniad i deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac nad ydynt o fewn rheolaeth Cyngor Sir Ceredigion a bod hyn yn

cael ei blismona gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a nodwyd y byddai cymal eithrio Dosbarth 6 yn berthnasol i gartrefi tymhorol. Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael hefyd, o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, fod eithriad Premiwm Dosbarth 6 bellach yn ymestyn i gynnwys anheddau sydd wedi'u cyfyngu gan amod cynllunio sydd naill ai'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn neu sy'n pennu mai dim ond ar gyfer llety gwyliau y gellir defnyddio'r annedd neu sy'n atal ei meddiannu fel unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn. Byddai'r eithriadau Premiwm hyn hefyd yn berthnasol pe bai eiddo'n dychwelyd i Dreth y Cyngor oherwydd nad yw'n cyrraedd y trothwy 182 diwrnod i aros ar Ardrethi Busnes.

Cadarnhaodd Eifion Evans, Prif Weithredwr fod penderfyniadau ynghylch dyraniad y premiwm 25% yn benderfyniad gwleidyddol, a fydd yn parhau i fod ar waith tan 1<sup>af</sup> Ebrill 2024, ac y byddai angen penderfyniad gwleidyddol ddiwedd Mawrth 2024 fel rhan o bennu'r gyllideb. Cadarnhaodd Duncan Hall, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Cyllid a Chaffael fod £1.8 miliwn ar hyn o bryd yn y Cynllun Tai Cymunedol, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i oddeutu £2.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, a fydd yn aros yn y cynllun hwn.

Nododd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans y dylai Cyngor Sir Ceredigion godi'r premiwm i'w uchafswm o 300%, er mwyn cadw i fyny ag awdurdodau eraill sydd wedi cynyddu eu cyfraddau yn y gorffennol, gan y gallai rhai benderfynu symud yma os bydd awdurdodau cyfagos yn penderfynu cynyddu eu premiymau ymhellach. Nododd nad ydym yn gallu adeiladu oherwydd yr amgylchiadau ar hyn o bryd, ond nid oes angen caniatâd cynllunio ar gartrefi gwag.

Ailadroddodd y Cynghorydd Marc Davies bwysigrwydd cefnogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau, ond gofynnodd a oedd tystiolaeth y byddai codi'r premiwm yn arwain at y canlyniadau a ddymunir, yn hytrach nag arwain at werthu busnesau llety gwyliau gan arwain at ragor o ail gartrefi.

Amlinellodd y Cynghorydd Catrin M S Davies yr effaith o ran eiddo llai yn cael eu prynu fel ail gartrefi, a'r diffyg cyfraniad a wneir i'r gymuned leol a'i heconomi lle mae eiddo o'r fath yn parhau'n wag am gyfnod sylweddol o'r flwyddyn. Nododd fod y cymal 182 diwrnod yn peri anesmywthyd i hithau hefyd, ond dylid nodi mai peth moethus yw bod yn berchen ar ddau gartref pan nad oes gan rai pobl unrhyw le i'w alw'n gartref.

Nododd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan ei bod yn cytuno gyda'r argymhellion, ac y gallai cynnydd i 150% annog pobl i werthu eu hail gartrefi gan roi cyfle i eraill brynu. Nododd fod 75% o berchnogion ail gartrefi yn byw y tu allan i Geredigion, gyda llawer o'r rhain o Loegr sy'n cael effaith niweidiol ar yr iaith.

Nododd y Cynghorydd Euros Davies ei fod yn fwy parod i weld cynnydd mewn premiymau ar eiddo gwag gan fod sawl un yn ei ward yn dadfeilio, sy'n dibrisio eiddo cyfagos, a phryder y gellir torri i mewn iddynt. Mae llawer

o'r rhain yn eiddo fforddiadwy a fyddai'n addas i bobl ifanc yn enwedig gyda'r grantiau sydd ar gael i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Mae pobl wedi buddsoddi mewn ail gartrefi i'w datblygu fel cartrefi gwyliau ac mae llety gwyliau yn cyflogi pobl leol i'w glanhau. Os gwerthir llety gwyliau fel ail gartrefi, bydd hyn yn effeithio ar y gyflogaeth hon gan na fydd angen eu glanhau.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd welliant i argymhelliad 2, i bleidleisio ar eitemau a) a b) ar wahân er mwyn rhoi cyfle i adolygu tystiolaeth o effaith cynyddu'r premiwm yn ystod blwyddyn 1 cyn penderfynu ar gynnydd pellach ym mlwyddyn 2. Ategwyd hyn gan nifer o Aelodau.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans hefyd fod rhagdybiaethau'n cael eu gwneud o ran gostyngiad ym mhrisiau eiddo yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc brynu a'r effaith ar y Gymraeg, gan nodi bod y cyfle eisoes wedi mynd heibio yn Aberaeron a bod prisiau tai yn uchel oherwydd bod pobl eisiau byw yno. Nododd fod llawer o lety gwyliau bellach yn dod ar y farchnad oherwydd y rheol 182 diwrnod, ac nad oedd erioed wedi gweld cynifer o dai ar werth yng Ngheinewydd a chyda thwristiaeth yn brif gynheiliad yng Ngheredigion, nid oedd am weld swyddi'n cael eu colli.

Nododd y Cynghorydd Keith Evans fod angen economi gref i gadw pobl ifanc yng Ngheredigion, fodd bynnag, rydym wedi methu â gwneud hyn ers degawdau gyda phobl yn gadael am well cyfleoedd yng Nghaerdydd ar draul Ceredigion. Nododd ei fod yn cydymdeimlo â phobl sy'n berchen ar ail gartrefi o ganlyniad i etifeddiaeth, fodd bynnag maent yn defnyddio'r rhain fel lle i aros ac i gyfrannu at y gymuned.

Nododd y Cynghorydd Alun Williams fod llawer o'r Aelodau wedi cael llythyrau oddi wrth berchnogion ail gartrefi yn amlinellu eu cyfraniadau i'r gymuned ond nododd nad yw hyn cystal â meddiannaeth gan drigolion llawn amser 365 diwrnod y flwyddyn. Nododd fod tueddiad i or-gyffredinoli pwy allai brynu eiddo, ac mae'n debyg mai darlun cymysg fyddai hwnnw, fodd bynnag, mae prinder difrifol o ran tai, gyda phobl ifanc yn cael trafferth prynu, a rhai yn byw mewn cartrefi is-safonol ac yn methu ymgartrefu yn eu cymunedau lle mae gan eraill ddau. Nododd nad yw hyn yn rhywbeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig, a bod ardaloedd fel Dyfnaint a Chernyw ac ardaloedd yn yr Alban hefyd yn ystyried codi'r premiwm 100%, a bod yn rhaid ystyried hyn mewn cyd-destun ehangach. Byddai unrhyw awdurdod lleol sy'n codi llawer llai yn rhoi ei hun mewn sefyllfa fregus ac yn dod yn atyniad ar gyfer perchnogaeth ail gartrefi.

Nododd y Cynghorydd Matthew Vaux y bydd angen i wasanaeth cynllunio Cyngor Sir Ceredigion ystyried y posibilrwydd o gael gwared ar y cyfyngiad ar gartrefi tymhorol fel y gellir trosglwyddo llety gwyliau i breswylfeydd gydol y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** pleidleisio ar eitemau 2a) a 2b) ar wahân, ac i ddileu "ac yna i" ar ddiwedd eitem 2a).

Ymhellach, **PENDERFYNWYD** hefyd:

1. fod y premiwm Treth y Cyngor presennol o 25% yn achos Eiddo Gwag Hirdymor yn cynyddu o 01/04/24 ymlaen, i:
  - a) 100% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers pum mlynedd neu lai.
  - b) 150% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers dros bum mlynedd a hyd at ddeg mlynedd (gan gynnwys deg mlynedd).
  - c) 200% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers dros ddeg mlynedd.
 Bydd pob cyfnod amser yn cynnwys y cyfnod cychwynnol cyntaf o 12 mis cyn bod annedd yn cael ei diffinio yn Eiddo Gwag Hirdymor am nad yw'n cael ei meddiannu a heb fawr o ddodrefn.
- 2a) y bydd y Premiwm Treth y Cyngor o 25% sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i **Ail Gartrefi** yn cynyddu i 100% i ddod i rym o 01/04/24.
- 2b) y bydd y Premiwm Treth y Cyngor o 25% sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i **Ail Gartrefi** yn cynyddu i 150% i ddod i rym o 01/04/25.
3. Nodi yr ymdrinnir ag unrhyw ystyriaethau ariannol posibl sy'n deillio o'u penderfyniadau cyn gynted â phosibl fel mater ar wahân mewn cyfarfod ar wahân yn y dyfodol.

## 9 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiadau (Atodiadau B1 a B2) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno. Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfyngedig ac i beidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod gan na thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

## 10 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth ar Bolisïau Tâl Athrawon 2023/24

Gadawodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Endaf Edwards, Rhodri Evans a Chris James y cyfarfod am gyfnod y drafodaeth.

Gadawodd Eifion Evans, Prif Weithredwr y cyfarfod hefyd am gyfnod y drafodaeth.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael yr adroddiad gan nodi bod Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 wedi'i chyhoeddi ar 5 Hydref 2023 ac yn cadarnhau trefniadau cyflog athrawon yng Nghymru ar gyfer 2023/24. Nododd fod yr elfennau statudol yn cynnwys codiad 5% i'r holl bwyntiau a lwfansau ar raddfa statudol, sy'n daladwy o 1 Medi 2023 a bod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r undebau llafur dysgu lleol ac wedi'i dderbyn.



**PENDERFYNWYD** cymeradwyo:

1. Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon 2023/24 a'i gymeradwyo i'r Cyrff Llywodraethu er mwyn ei fabwysiadu yn ysgolion Ceredigion
2. Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon Digyswllt 2023/24 ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog

**11 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd ar Gynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys e-ddeisebau**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi cynllun deisebau, gan gynnwys deisebau electronig, gan roi amlinelliad o'r cynllun.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fod y protocol drafft wedi'i ystyried gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a hefyd wedi'i ystyried gan Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad, a bod y pwyllgor yn gwbl gefnogol i'r protocol sy'n rhoi cyfeiriad clir sy'n ddefnyddiol i'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Evans a oedd angen i'r e-ddeisebau fod yn ddwyieithog, a chadarnhawyd y byddai angen hyn gan ei bod yn cael ei chynnal ar wefan y Cyngor, ond yr unigolion fyddai'n gyfrifol am roi'r wybodaeth hon gyda chymorth gan swyddogion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- a) Cytuno'r Protocol Deisebau ddiwygiedig ddrafft;
- b) Argymhell fod y ddogfen bresennol yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn cael ei disodli gan y protocol diwygiedig.

**12 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Y Gyfraith a Llywodraethu ar Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y diwygiadau arfaethedig wedi'u hystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad yn ei gyfarfodydd yn dwyn dyddiad 26 Medi 2023 a 14 Tachwedd 2023, ac yn rhoi amlinelliad o gynnwys pob dogfen.

Nododd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro nad oedd y diwygiad i ddogfen 3.5J wedi mynd gerbron Gweithgor y Cyfansoddiad. Fodd bynnag, caiff y wybodaeth hon ei dyblygu yn nogfen P. Nodwyd hefyd bod gwybodaeth wedi'i hepgor yn Atodiad 10 a ddylai nodi Trosolwg a Chraffu x 5 Aelod a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio x 2 aelod ac 1 aelod lleyg - cadarnhawyd y byddai'r wybodaeth a hepgorwyd yn cael ei chynnwys wedi'i chwblhau cyn ei chyhoeddi.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd ei werthfawrogiad bod Gweithgor y Cyfansoddiad wedi tynnu sylw at ddatblygiadau ar ôl eu hystyried.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- a) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad (Atodiadau1 – 10); a
- b) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddarau Cyfansoddiad y Cyngor y adlewyrchu'r newidiadau uchod.

**13 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd ar Gyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi yn ystod cyfarfod o Arweinwyr y Grwpiau, y cyflwynwyd cynnig i ddiwygio eitem y 'Materion Personol' ar Agenda'r Cyngor i 'Gyhoeddiadau'r Cadeirydd'. Cyfeiriwyd y mater hwn at Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried ac fe'i hadolygwyd hefyd gan Grŵp Trawsbleidiol y Cyfansoddiad. Nododd y gall y rhestr o faterion personol fod yn hir iawn weithiau, a bod adolygiad o arferion awdurdodau eraill hefyd wedi'i ystyried, gan nodi argymhelliad bod eitemau yn cael eu cyflwyno i'r Cadeirydd o leiaf 2 ddiwrnod gwaith ymlaen llaw i'w cyflwyno gan y Cadeirydd, gyda'r Cadeirydd â disgresiwn terfynol ynglŷn â'r materion hyn.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fod y cynnig hwn wedi'i ystyried gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 9 Mehefin 2023, a chan Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad yn ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 26 Medi 2023. Nododd fod sawl Aelod wedi mynegi eu pryderon gyda hi ynghylch yr amser sy'n cael ei dreulio ar y mater hwn, a'r cynnwys. Nododd hefyd fod y cynnig hwn yn cael ei yrru gan Aelodau, ac nid gan Swyddogion, gan nodi nad yw hyn yn lleihau'r hawliau democrataidd i gyflwyno sylwadau drwy'r Cadeirydd.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Is-gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn gefnogol i argymhelliad Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gyflwyno'r cynnig hwn i'r Cyngor er mwyn clywed barn yr holl Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod gan y Cadeirydd ddigon o waith i'w wneud, a bod y materion hyn yn bersonol i Aelod y ward leol, nid y Cadeirydd. Os oes gwendid yn y broses, yna dylid hysbysu Arweinwyr y Grwpiau a gellir ei drafod ymhellach.

Gwnaeth y Cadeirydd gydnabod y sylwadau a wnaed, gan nodi bod rhai o'r eitemau yn ymwneud â'r Ward yn hytrach na'r Sir a bod nifer o sylwadau wedi'u gwneud gan wylwyr ynglŷn â hyn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r gwelliant i Agenda'r Cyngor o 'Materion Personol; i 'Gyhoeddiadau'r Cadeirydd'

**14 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd ar Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy**  
Nododd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi'i thynnu oddi ar agenda'r Cyngor, ac y cynhelir gweithdy i Aelodau ym mis Ionawr 2024.

**15 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Y Gyfraith a Llywodraethu ar Recriwtio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**  
Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi na cheisiodd John Weston gael ei ailbenodi'n Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau unwaith y daw'r penodiad chwe blynedd cychwynol i ben ar 21 Chwefror 2024, a bod y Cyngor wedi cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol newydd yn ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 13 Gorffennaf 2023. Nododd, yn dilyn proses recriwtio, fod Llinos James wedi'i dewis yn Aelod Annibynnol / Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o 22 Chwefror 2024 am un cyfnod o 6 blynedd, gydag opsiwn i'w hailbenodi am ail gyfnod o 4 blynedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr John Weston am ei gyfraniad a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi Llinos James yn Aelod Annibynnol / Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o 2 Chwefror 2024, am un tymor o 6 blynedd hyd at 21/02/2030.

**16 Cadarnhau'r apwyntiadau canlynol:**  
**PENDERFYNWYD** apwyntio Aelodau Lleyg i'r rolau canlynol:

Cydbwyllgor Corfforaethol: Is-bwyllgor Moeseg a Safonau

- Aelod Lleyg Ychwanegol: Gail Storr

Pwyllgor Moeseg a Safonau:

- Is-Gadeirydd o 22 Chwefror 2024: Gail Storr

**17 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Ysgolion ar apwyntio Cynrychiolydd Llywodraeth Leol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion**  
Cyflwynodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod y Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cynghorydd Shelley Childs wedi'i enwebu fel Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol ar gais Ysgol Gynradd Gymunedol Llwyn yr Eos.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau enwebiad y Cynghorydd Shelley Childs yn Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Bwrdd Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Llwyn yr Eos.

**18 Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023**  
Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet ar gyfer Llesiant Gydol Oed yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi ei bod

yn ddyletswydd statudol i gyflwyno'r adroddiad, sy'n anelu at gynhyrchu darlun cyflawn o bob agwedd ar yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion a rhoi adborth mwy amserol i brosesau cynllunio a phrosesau cyllidebol. Diolchodd i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am goladu'r adroddiad, ac i'r swyddogion am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.

Nododd Audrey Somerton-Edwards fod yr adroddiad hwn yn cwmpasu ei chyfnod a chyfnod Sian Howys ac yn adlewyrchu cymhlethdodau'r gwaith y maent yn ei wneud. Nododd fod y ddeddfwriaeth yn newid y flwyddyn nesaf gyda ffocws ar ddarlleniad ysgafnach, disgleiriach a hawdd ei ddarllen er mwyn i'r cyhoedd fwynhau darllen am yr hyn rydym yn ei wneud.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

**19 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2022-2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Cyngor, gan nodi mai hwn yw'r pedwerydd adroddiad yn olynol lle nad oes dim ymchwiliadau wedi'u cychwyn gan yr Ombwdsmon a lle nad oes dim adroddiadau ffurfiol wedi'u cyhoeddi ganddo mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Nodwyd bod angen gwneud gwaith o ran cofnodi sylwadau o ganmoliaeth, bod nifer y cwynion ymhlith y trydydd isaf yng Nghymru a bod angen canolbwyntio ar leihau nifer y cwynion sy'n cynyddu o gam 1 i gam 2 oherwydd cyfyngiadau amser. Bu llai o atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon o gymharu â'r llynedd, ac mae'r prif bynciau sy'n peri pryder yn ymwneud â gwastraff a chynllunio; fodd bynnag mae hyn oherwydd y nifer uchel o ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn ac nid yw'n adlewyrchiad o'r gwasanaeth.

Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 27 Medi 2023, gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystod ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 19 Hydref 2023 a chan y Cabinet yn ystod ei gyfarfod yn dwyn dyddiad 7 Tachwedd 2023.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Ganmoliaeth, Cwynion a Gweithgareddau Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2022-23 (Atodiad 1)
2. Nodi cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon (Atodiad 4)
3. Nodi'r adborth o drafodaeth Pwyllgor y Cabinet ynghylch yr adroddiadau hyn ar 7 Tachwedd 2023: ***'Nododd Cabinet yr adroddiad a'r adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol'***

**20 Adroddiad y Prif Weithredwr ar hysbysu'r Cyngor am apwyntio Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a**

### **Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfnod hyd at 6 mis**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod swydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dod yn wag yn ddiweddar oherwydd ymadawiad Mr Ricky Cooper. Nododd fod hon yn rôl statudol a hanfodol i'r Cyngor, ac o'r herwydd derbyniwyd cynnig i benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal dros dro am gyfnod o hyd at 6 mis, drwy asiantaeth recriwtio, gan Banel y Penodiadau, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies ynghyd â dau Arweinydd Grwpiau'r Gwrthbleidiau, y Cynghorwyr Elizabeth Evans a Gareth Lloyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Lloyd am eglurhad ynghylch a ellid cwtdogi'r cyfnod o 6 mis pe bai penodiad llwyddiannus yn cael ei wneud, a chadarnhawyd mai dyna oedd y sefyllfa.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

#### **21 EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad hwn ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

**PENDERFYNWYD** cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfyngedig ac i beidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod gan na thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

#### **22 Aelodaeth y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor fel y'u cyflwynwyd yn y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024**

**CADEIRYDD:** \_\_\_\_\_